LGBC9M/2001

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 4.30 pm DDYDD IAU 4ydd HYDREF 2001 YNG NGWESTY'R CELTIC ROYAL, CAERNARFON

Yn bresennol:

Comisiwn	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr E Lewis (Ysgrifennydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)	Mr S Halsall
Mrs S Smith (Aelod)	Mr D Carr
	Gwesteion
	Mr J E Davies
	Mr D Roberts

Llongyfarchodd y Cadeirydd Mrs Smith ar ei chais llwyddiannus ar gyfer swydd Cadeirydd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru y bydd yn cychwyn ar ei swydd ar 1af Ionawr 2002 pan ddaw cyfnod y Cadeirydd presennol yn y swydd i ben. Hefyd estynnodd groeso i'r cyfarfod i Mr Davies a Mr Roberts a fydd yn cychwyn ar eu swyddi fel Comisiynwyr ar 1af Ionawr 2002.

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 23ain Awst 2001 a 5ed Medi 2001.

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Awst a 5 Medi 2001.

2. Materion yn codi.

2.1 Nododd yr Ysgrifennydd ei fod yn dal i aros am ymateb gan Edwina Hart AC o ran Ffiniau'r Siroedd a Gadwyd a'i fod wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol i Gymru i'w hysbysu o'r sefyllfa.

2.2 Nododd Mr Halsall fod Adroddiadau'r Cynigion Drafft ar gyfer yr arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Wrecsam wedi'u cyhoeddi a'u dosbarthu.

2.3 Nododd Mr Halsall fod cofnodion cyfarfodydd y Comisiwn ar gyfer mis Mawrth, Ebrill a Mai 2001 bellach wedi eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn. Caiff y cofnodion ar gyfer cyfarfod mis Mehefin eu cyhoeddi'n fuan.

2.4 Nododd yr Ysgrifennydd fod Frank Cuthbert o Is-Adran LGM wedi'i hysbysu eu bod am i'r Comisiwn gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2000/01 i Bwyllgor Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Tachwedd 2001. Roedd Mr Cuthbert wedi dweud wrtho mai hwnnw oedd yr unig ddyddiad oedd ar gael i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol cyn y flwyddyn newydd. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i Bwyllgor y Llywodraeth Leol ar 21

Tachwedd 2001. **Cytunwyd** y byddent yn ceisio cael cadarnhad o'r cyfarfod gydag Edwina Hart AC ar 29 Tachwedd 2001 am 10.30 am gan Is-Adran LGM.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro – adroddiad ar yr ymweliad â'r safle.

3.1 Amlinellodd Mr Halsall yr awgrymiadau ar gyfer ffiniau amgen i'r gorllewin o Efailwen a dderbyniwyd gan y Comisiwn. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth hefyd wedi ymweld â'r ardal er mwyn canfod a oedd y ffiniau a awgrymwyd yn dilyn y nodweddion amlwg ar y tir.

3.2 Tynnodd Mr Halsall sylw'r Comisiwn at ffin amgen a awgrymwyd gan Gyngor Sir Penfro a oedd yn gadael y brif ffordd i'r gogledd o Efailwen ac yn dilyn ffiniau'r cae o amgylch Fferm Maenpica. Nododd Mr Halsall fod y ffin hon ar y cyfan yn amlwg ar y tir. Fodd bynnag, ar un pwynt roedd yn rhannu dau gae gerllaw Fferm Maenpica a oedd yn amlwg yn perthyn i'w gilydd ac felly cynigiwyd diwygiad gan yr Ysgrifenyddiaeth yn rhedeg ar hyd ffin y cae hwn. Roedd Cyngor Sir Penfro hefyd wedi cynnig ffin amgen arall i'r de orllewin o Efailwen y profwyd ei bod hi hefyd yn amlwg ar y tir ac yn ymgorffori eiddo Efailwen-isaf, Brynbedw a Blaenafon o fewn Sir Gaerfyrddin.

3.3 Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnig ffin amgen i'r de o Efailwen a fyddai'n arwain at ardal fawr o dir yn cael ei throsglwyddo o Glunderwen i Gilymaenllwyd. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi canfod bod y ffin hon yn amlwg ar y tir. Fodd bynnag, nodwyd bod eiddo ar bob ochr i'r isffordd a oedd yn ffurfio'r ffin arfaethedig ac y byddai un eiddo yn agos i Bont Llwyn-dwfr yn cael ei adael ar wahân i weddill cymuned Clunderwen.

3.4 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu'r ddwy ffin amgen a gynigiwyd gan Gyngor Sir Penfro gyda'r cwrs diwygiedig i'r gorllewin o Fferm Maenpica a awgrymwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

3.5 Derbyniwyd sylw pellach gan Blaid Ryddfrydol Cymru ynghylch newid bach i'r ffin rhwng Clunderwen a Henllanfallteg a fyddai'n trosglwyddo rhan fechan o dir i'r gogledd orllewin o'r troad i fferm y Coleg o Henllanfallteg i Glunderwen. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn hefyd yn mabwysiadu'r ffin gymunedol amgen hon.

3.6 Cytunwyd y byddai'r Comisiwn yn cynnig newid enw Cymuned Clynderwen i'r sillafiad Cymraeg Clunderwen.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Geredigion a Sir Benfro yn ardal Cymuned Llandudoch – Drafft o'r Adroddiad ar y Cynigion Terfynol.

4.1 Ystyriodd y Comisiwn ohebiaeth gan Bronwen Morgan o Gyngor Sir Ceredigion mewn ymateb i adroddiad Rita Hale. Esboniodd Mr Halsall fod yr ohebiaeth wedi ei hanfon at Rita Hale a oedd bryd hynny'n ystyried ei hymateb a gâi ei anfon i'r Comisiwn cyn gynted ag y byddai wedi'i dderbyn. **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn

aros am ymateb Rita Hale ac ymgorffori manylion ei hadroddiad yn eu Cynigion Terfynol.

5. Arolygiad o Wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.1 Esboniodd Mr Halsall bod yr argymhellion hyn a'r arweiniad hwn yn cwmpasu'r fformat y dylai gwefannau dwyieithog ei ddilyn. Dywedodd fod gwefan y Comisiwn yn cydymffurfio â mwyafrif yr argymhellion yn adroddiad yr arolygiad gyda mân eithriadau. Bwriad yr arolygiad oedd y dylai sefydliadau ystyried ei gynnwys a mabwysiadu polisi tudalen ar y we fel rhan o'u cynllun Iaith Gymraeg.

5.2 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch goblygiadau'r arolygiad ar wefan y Comisiwn ac yn ystyried penodi ymgynghorwyr i edrych ar unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i wefan y Comisiwn.

6. Comisiwn Trefniadau Etholiadol a Llywodraeth Leol i Gymru.

6.1 Amlinellodd yr Ysgrifennydd ei gynigion ar gyfer tystiolaeth y gallai'r Dirprwy Gadeirydd ei chyflwyno ar ran y Comisiwn i Gomisiwn Trefniadau Etholiadol a Llywodraeth Leol i Gymru ar 22ain Hydref 2001. Roedd y cynigion hyn yn cwmpasu:

i) rhanbarthau etholiadol unigol yn erbyn rhai aml-aelod;
ii) ailethol cynghorwyr heb wrthwynebiad;
iii) nifer y cynghorwyr ar gyfer awdurdodau lleol;
iv) dulliau o bleidleisio (h.y. drwy'r post, gorsafoedd pleidleisio).

6.2 Awgrymodd y Dirprwy Gadeirydd y dylid hysbysu'r Comisiwn bod Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cynnal yr arolwg etholiadol diwethaf ar sail y prif awdurdodau a grëwyd gan y Senedd a chyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Teimlai y byddai'n well yn y dyfodol i gomisiynau ffiniau roi cyngor i wleidyddion ar gynnal arolygon etholiadol. Cytunodd y Cadeirydd y dylid cynnwys y pwynt hwn fel tystiolaeth i'r Comisiwn Trefniadau Etholiadol a Llywodraeth Leol i Gymru.

6.3 Teimlai'r Ysgrifennydd fod mater cyfrifoldebau'r Awdurdodau Lleol wrth gynnal arolygon o gymunedau yn eu hardaloedd yn fater y gellid ei godi gan eu bod yn aml yn ymddangos yn gyndyn i wneud gwaith o'r fath naill ai drwy inertia gwleidyddol neu anwybodaeth o bwysigrwydd arolygon o'r fath.

7. Unrhyw Fater Arall.

7.1 Nododd yr Ysgrifennydd fod y gwaith paratoi ar gyfer trosglwyddo dyletswyddau i'r Comisiwn Ffiniau Seneddol yn mynd rhagddo. Byddai'r Comisiwn yn penodi aelod ychwanegol o staff a byddai hyfforddiant ar gyfer gwaith seneddol yn cychwyn ym mis Ionawr 2002.